

PWY SY'N DEBYG I JEHOFAH EIN DUW?

Nodyn i'r siaradwr:

Anogwch y gynulleidfa i werthfawrogi rhinweddau unigryw Jehofah, a dangos sut mae efelychu'r rhain

MAE 'NA LAWER O DDUWIAU GAU (8 mun.)

Mae dyn wedi addoli llawer o dduwiau

Hyd yn oed heddiw, mae crefyddau fel Shinto a Hindŵaeth, yn honni fod 'na fliynau o dduwiau (*sh* 97, 191)

Er cydnabod nad duwiau mo'u "seintiau" niferus, mae llawer ym Myd Cred yn mawrygu'r "seintiau" hyn gymaint nes eu bod yn eu haddoli nhw bron

Mae chwantau hunanol yn gallu bod yn fath arall o addoliad (Rhuf 1:24-27; Col 3:5)

Mae'n bosib i'r hyn mae unigolyn yn crefu amdano ddod rhyngddo a'r Creawdwr,—a dod yn eilun

Duw rhai yw eu bol—cymaint ydi eu chwant i loddesta (Rhuf 16:18; Phil 3:18, 19)

Mae "duw'r oes bresennol," sef Satan y Diafol, yn camarwain pobl i addoli gau dduwiau (2Cor 4:4)

MAE JEHOFAH, Y DUW ANGHYMHAROL, YN AMDDIFFYN AC YN GWAREDU'I BOBL (10 mun.)

Ein braint ni ydi addoli Jehofah, yr unig wir Dduw (1Cor 8:5, 6)

'Does dim Duw fel Jehofah (Salm 86:8)

"Pwy sydd fel yr ARGLWYDD ein Duw?" holodd y salmydd (Salm 113:5)

Sut gall duwiau sy'n eilunod difywyd amddiffyn a gwaredu! (Salm 115:4-8; *w*92 11/15 11)

Methodd duwiau'r Aifft ag amddiffyn eu haddolwyr (*w*93 7/15 3-5)

Mae Jehofah eisoes wedi dangos fod y gallu ganddo i achub ei bobl

Fe gafodd yr Israeliaid eu hamddiffyn rhag eu difa pan 'roedden' nhw'n gaethion yn Yr Aifft

'Doedd gan Pharo mo'r grym i atal gwaredigaeth Israel (Ex 14:25-28)

Drwy gyfrwng y plâu, darostyngodd Jehofah dduwiau gau Yr Aifft a'u barnu'n llym (Ex 12:12; *it*-1 976)

Daeth Brenin Asyria i orfod cydnabod fod Jehofah yn amddiffyn preswylwyr Jerwsalem, a'u hachub nhw rhag eu gelynyddion (2Bren 19:32-35)

'Roedd yn rhaid i Nebuchadnesar, brenin Babilon, gydnabod mai Jehofah oedd oruchaf wedi iddo waredu'r tri llanc o Hebrewyr (Dan 3:29)

Ac yntau'n Amddiffynnwr ei bobl, mae Jehofah yn haeddu moliant

Rhoddodd Dafydd glod i Jehofah y Gwaredwr (Salm 35:10)

Mae gwybod fod Jehofah yn Amddiffynnydd ac yn Waredwr yn rhoi hyder inni fod ganddo'r gallu i'n cynnal drwy'r "gorthrymder mawr" sydd gerllaw (Math 24:21)

MAE POBL JEHOFAH YN ADLEWYRCHU EI RINWEDDAU UNIGRYW (22 mun.)

Mae pobl Jehofah yn ceisio adlewyrchu'i rinweddau rhyfeddol (Eff 5:1)

Dyma rai enghreifftiau

Mae *sancteiddrwydd* yn perthyn i Jehofah—ond nid i dduwiau gau (1Sam 2:2)

Cyflwr bod yn sanctaidd, yn ysbrydol lân, ydyw (*it*-1 1127-31)

Wrth inni roi Gair Duw ar waith, 'rydym yn medru ymgynraedd at lendid o'r fath yng ngolwg Jehofah

Wrth inni ymostwng i arweiniad yr ysbryd sanctaidd, medrwn gynraedd lefel o sancteiddrwydd cymharol, er gwaetha'n hamherffeithrwydd

Cariad—dyma rinwedd amlycaf Jehofah (1Ioan 4:8)

Amlygodd Jehofah ei gariad pan wnaeth ddyn ar ei ddelw a'i lun, gyda'r gallu i roi mynegiant i gariad, ac i feithrin ysbrydolrwydd (Gen 1:26, 27)

Oherwydd eu cariad brawdol mae modd 'nabod canlynwyr Mab Duw (Ioan 13:35)

Oherwydd cariad 'rydym yn barod i helpu eraill yn ystod trychineb (*ju* 712)

Cariad sy'n ein hysgogi ni i gyhoeddi "ei iachawdwriaeth o ddydd i ddydd" (Darllen Salm 96:2)

Gallu/nerth—dyma rinwedd anghymharol sydd gan Jehofah

Mae'r greadigaeth yn amlygu "maint ei nerth a'i fod mor eithriadol gryf" (Eseia 40:25, 26)

Mae e'n galluogi'i bobl i adennill eu nerth (Eseia 40:28-31)

Nerth gan Dduw sy'n ein galluogi ni i gyflawni'i wasanaeth (2Cor 4:7, 8)

Mae *cyfiawnder* yn amlwg iawn yn holl ffyrdd Jehofah (Deut 32:4)

Fe yw'r Barnwr Mawr a'r Deddfwr (Eseia 33:22)

A ninnau'n weision Duw, mae disgwyl i ni roi cyfiawnder ar waith (Micha 6:8)

Yn y byd newydd mi fydd Crist a'r rhai hynny sy'n gweinyddu ei lywodraeth yn gweithredu cyfiawnder bob amser (*it*-2 140-1)

Mae cyfiawnder Jehofah yn debyg iawn i'w farn (Salm 119:137; Actau 10:34, 35)

Ystyr y geiriau yn yr Hebraeg a'r Groeg ydi uniondeb, tegwch, barn deg

I geisio cyfiawnder Jehofah mae disgwyl inni fyw yn unol â'i safonau (Math 6:33; *it*-2 809-11)

Yn Jehofah y gwelir *doethineb* yn yr ystyr absoliwt, ar ei lwyraf (Rhuf 16:27; *it*-2 1189-95)

Enghraifft eithriadol o'i ddoethineb ydi fel y bu iddo ddatrys gwrthryfel Gardd Eden, gan ddileu effeithiau'r gwrthryfel, ac yn y pen draw adfer heddwch a chytgord i bawb o ddeiliaid y bydysawd (1Cor 2:7)

Mae Jehofah yn rhoi doethineb, ond rhaid ei cheisio mewn ffydd (Iago 1:5-8)

Mae Cristnogion bob amser yn ceisio gwneud penderfyniadau doeth, yn hytrach nag ymddwyn yn afresymol. Maen' nhw'n 'ceisio deall beth yw ewyllys Jehofah' (Eff 5:15-20; Col 4:5, 6)

Mae'r wybodaeth hon a llawer arall yn dangos mor unigryw ydi Jehofah, a'i fod yn haeddu'n haddoliad eiddigeddus ni (Ex 20:4, 5)

CYHOEDDWCH OGANIANT JEHOFAH, YR UNIG WIR DDUW (5 mun.)

Jehofah ydi'r Creawdwr; nid oes neb tebyg iddo

Gwelwn ei Dduwdod a'i allu tragwyddol yn y greadigaeth (Rhuf 1:20)

Felly, 'does 'na ddim esgus i beidio â'i wasanaethu

Mae cofnodion y Beibl yn dangos inni sut bersonoliaeth sydd gan Jehofah, yn arbennig yn y rhannau sy'n sôn am ei uniganedig Fab (Ioan 1:18)

Mae Jehofah wedi amlygu ei Dystion i gyhoeddi ei ogoniant a hysbysu ei enw (Eseia 43:10, 11)

Mae'n calonnau yn ein gorfodi ni i foli Jehofah (Ex 15:11)

Gyda miliynau eraill, codwn ein lleisiau i ddatgan mor ddihafal ydi'r Penllywydd Arglwydd Jehofah!

(Glynwch yn glòs at y deunydd a amlinellir, a chadw at yr amser sydd wedi'i nodi ar gyfer pob adran. 'Does dim rhaid darllen pob testun a grybwyllir na gwneud sylwadau arnyn' nhw)